CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION GORFFENNAF 26, 2016

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth Gorffennaf 26, 2016 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Huw A. Evans, Meurig Ashton. Hefyd Henry M. Edwards.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins a Rhun Prys Jones.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 21, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 21, 2016

Eitem 6.b. b. Galwad ffôn (6/6/2016) oddi wrth Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn gofyn am leoliad cywir lle mae angen clirio coed sydd wedi disgyn dros lwybr rhwng Hendre, Hermon a Cyplau, Abergeirw. Codwyd y mater yn cyfarfod Mawrth 2016 (Eitem 10.a.).

Rhoddwyd gwybodaeth rhif y llwybr 24 a grid y lleoliad SH 765277 i'r Adran.

Eitem 6.ch. Llythyr (27/6/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod maent yn caniatau Cynghorau Cymuned a thref i lenwi biniau cyn belled bod y contractwr yn cydymffurfio gyda Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991. Bydd y gost i lenwi bin rhwng £45 a £57 ac mae angen ystyried costau llafur, thrafnidiaeth ayyb; mae'r costau wedi eu selio ar brisiau gwmniau adeiladol lleol. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am bin halen bydd yn cael ei lenwi gan eraill.

Cost Cyngor Gwynedd i barhau rhoi y gwasanaeth yn £80 (clwstwr o finiau, isafswm o 3).

(Mae 13 bin halen yn y gymuned. Eu lleoliad:

Ar ffordd wrth: Gorwyr, Brithdir; Capel Siloh, Llanfachreth; Ffridd Goch, Capel Ffrwd; Tyn Mynydd, Llanfachreth; Doluwchadda; Rhedyncochion; 3 yn Blaen Hall, Rhydymain; Hafod y Geifr / Cae'r Defaid; Penrhiw, Rhydymain; Wenallt, Rhydymain; Drwsynant. Hefyd: Hendre, Blaen y Glyn, Hermon; Tyddyn Glyn, Blaen y Glyn, Hermon.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/06/2016) oddi wrth Ombwdsmon gyda chopi o Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn 2015/16.

b. Llythyr (29/6/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith adnewyddu giat a physt ar lwybr wrth Maes Llech, a bydd gwaith gosod giat yn lle camfa ar lwybr wrth Tŷ Mawr.

c. Llythyr (5/7/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd ffordd gyferbyn ag Ysgol Gynradd Ieuan Gwynedd ar gau ar 18/7/2016 hyd at 45 diwrnod i wneud gwaith ar y ffordd.

ch. Llythyr (18/7/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod yr ail waith bydd ffordd gyferbyn ag Ysgol Gynradd Ieuan Gwynedd ar gau ar 18/7/2016 hyd at 45 diwrnod i wneud gwaith ar y ffordd.

ch. E-bost (18/7/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir eu Cynhadledd ar ddydd Sadwrn, Hydref 1, 2016 am 9.30yb, ym Maes Sioe Frenhinol, Llanfair-ym- Muallt. Y gost fydd £90 y pen.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/449A. Gosod colofn telathrebu 12m o uchder gyda offer ategol ynghyd a chabanau offer ar ran cwmni EE Cyf., (yn lle'r mast presennol). Tir yn Coed Rhos Lwyd, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (15/7/2016)

ii. NP5/54/39L. Codi adeilad fram pren unllawr newydd i ddarparu dosbarth ychwanegol a gegin sgiliau bywyd a storfa ategol. Aran Hall School, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (15/7/2016)

iii. NP5/54/132E. Adeiladu bloc stabl fram dur i gymryd lle y bloc stabl pren presennol. Tŷ March Gwyn, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Llythyr (20/7/2016) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri i wneud penderfyniadau ar gynllunio a datblygu yn y dyfodol. Amgau mae ffurflen i'w gwblhau i roi ein barn, ac maent ei angen cyn Medi 30, 2016.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/5/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2016/18. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £9.029 yr awr ar bwynt SCP17, h.y. £9.029 x 12 (oriau) x 12 (misoedd) = £1,300.18.

Cyflog newydd am 2016/17 fydd £9.120 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.120x 12 x 12 = £1,313.28.

Penderfynwyd derbyn y newid.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin 2016: £1,135.07.

c. Balans yn y banc ar 29 Mehefin 2016: £5,884.20.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen tocio gwrychoedd ar ochr ffordd rhwng Croesffordd, Penesgyfna a Carreg Fawr, Llanfachreth.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd mae angen arwydd yn lleoliad SH 798270 i ddangos llwybr cyhoeddus Rhif 2 a llwybr ceffylau Rhif 1.